

ARGYMHELLION IS BWYLLGOR MWYNDERAU
NOS FAWRTH 5^{ed} GORFFENNAF 2016
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 O'R GLOCH

Presennol:
Cynghorwyr:
Mel Goch ap Meirion–Cadeirydd
Annwen Daniels
Bedwyr Gwilym
Erwyn Jones
Ronwen D Roberts
Will G Roberts
Meilir Hughes, Cyngor Gwynedd

Ymddiheuriad:
Cynghorwyr:
Rory Francis
Kevin Baldwin
Gareth W Jones
Mandy Williams-Davies

DATGAN DIDDORDEB

Ni fu i unrhyw Gynghorydd Datgan Diddordeb

1. Eiddo gan Cyngor Gwynedd

Bu i Mr Meilir Hughes o Adran Eiddo, Cyngor Gwynedd ddod a thrafod cynigion Cyngor Gwynedd parthed tir hamdden yn yr ardal. Eglurodd nad oedd unrhyw bwysau ar y Cyngor I gymryd cyfrifoldeb am unrhyw lecyn. Mae'r Cyngor Tref yn barod gyda phrydles mewn lle neu gyda chyfrifoldeb cynnal a chadw ar y mwyafrif o'r darnau tir dan sylw.

Cafwyd gwybodaeth bod achos cyfreithiol ynglŷn â'r darn tir a enwir yn Penbryn ger Cae Baltic, felly cynghorwyd y Cyngor Tref i beidio a derbyn y tir yma nes bydd yr achos wedi ei setlo.

Cafwyd gwybodaeth y bydd Cyngor Gwynedd yn fodlon anghofio eu costau cyfreithiol nhw wrth drosglwyddo rhydd daliadau'r tir.

Mae'r Cyngor Tref wedi penodi Cwmni Alwena Jones a Jones I weithredu ar ran y Cyngor Tref mewn unrhyw waith cyfreithiol sydd ynghlwm a chymryd rhydd daliad yr ardaloedd hyn. Bu Pr Cyngor drafod telerau cwmni Alwena Jones a Jones.

Argymhell: I dderbyn y wybodaeth a chytuno i dderbyn rhydd daliadau'r tir sydd dan ofal y Cyngor Tref yn barod. Mae Ysgol Tanygrisiau yn defnyddio darn o gae chwarae Tanygrisiau, felly i arbed arian i'r Cyngor Tref bydd ffin newydd yn cael ei gytuno i'r cae. Ni fydd y Cyngor Tref yn cymryd cyfrifoldeb am unrhyw fan parcio sydd ar gae Baltic nac ar gae Sgwâr Oakeley. Bydd cynghorwyr yn edrych yn fanwl ar y caeau cyn gwneud penderfyniad terfynol gan gychwyn gyda chaeau Tanygrisiau, Sgwâr Oakeley, Baltic a chae Gild. I drafod tir Penbryn, Cae Baltic pan fydd y mater cyfreithiol wedi ei setlo. I dderbyn telerau Cwmni Alwena Jones a Jones.

2. Ardal Llesiant

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Llywodraeth Cymru (2015) yn gosod cyfrifoldeb ar gyrrff cyhoeddus 'I feddwl am y tymor hir, i weithio'n well gyda phobl a chymunedau lleol a chyda'i gilydd' er mwyn creu -

Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus, diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang. Yr argymhell ar gyfer yr ardal hon yw Ffestiniog gan gynnwys Blaenau Ffestiniog, Llan Ffestiniog a Trawsfynydd.

Argymhell: Wedi ei drafod yn fanwl bu i'r Cyngor Tref gefnogi'r cynllun mewn egwyddor.

3. Cyfarfod Rheilffordd

Mae cryn ddiddordeb lleol mewn dyfodol y rheilffordd rhwng Blaenau Ffestiniog a Thrawsfynydd gyda ambell un wedi gofyn am gyfarfod ar y cyd i drafod hyn ymhellach.

Argymhell: Cytunwyd I drefnu cyfarfod ar y cyd ym mis Medi.

4. Trafod adroddiad y Cerddwr Llwybrau

Nid oedd y cerddwr llwybrau yn bresennol i'r cyfarfod a drefnwyd ym mis Mehefin ac mae angen ei ail drefnu.

Argymhell: I drafod dyddiad yng ngyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref.

5. Polyn Fflag

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â maint y polyn fflag newydd a hefyd os fydd yn bosib ei ffitio ar y plât gwaelod presennol er ei fod yn llai maint na'r un a osodwyd yn sgil y Gwaith adnewyddu canol y dref.

Argymhell: I symud ymlaen a chael polyn fflag newydd cyn gynted a bydd sicrwydd y gwnaiff ffitio ar y plat gwaelod presennol.

6. Cae Manod

Mae'r grŵp a gododd yr arian ar gyfer yr offer pren ar gae Manod wedi dadfyddino erbyn hyn ond mae dwy oedd yn flaenllaw gyda'r grŵp yn fodlon cwrdd i drafod eu cyflwr.

Argymhell: I dderbyn y wybodaeth a threfnu iddynt fynychu Is Bwyllgor Mwynderau ym mis Medi.

7. Gardd Cof Golofn Ffestiniog

Cafwyd gwybodaeth bod y gwair wedi côr dyfu'n arw ar y darn tir hwn ac nad yw Cyngor Gwynedd wedi ei dorri flwyddyn yma.

Argymhell: I drefnu i arddwr y Cyngor i dorri'r gwair a gofyn am bris am gytundeb misol fel sydd ar Gardd Encil.